**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref :
Ein cyf/Our ref:

Lynne Neagle AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

31Ionawr 2018

Annwyl Lynne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ionawr. Ynddo roeddech yn codi nifer o gwestiynau ynghylch cyfeirlyfrau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau. Roedd hyn wedi i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg graffu ar adroddiad blynyddol 2016/17 Cymwysterau Cymru.

Hoffwn ddweud, cyn dechrau, fy mod yn benderfynol o wneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau bod yr adnoddau priodol ar gael i'n hymarferwyr a'n dysgwyr yn Gymraeg ar yr un pryd a'r adnoddau Saesneg. Dyna pam y cynhaliais gynhadedd gyda'r rhanddeiliaid perthnasol y gwanwyn diwethaf i edrych ar sut y gallwn gydweithio i ganfod atebion i osgoi'r oedi a welwyd wrth gynhyrchu rhai adnoddau yn ystod y camau diweddaraf o ddiwygio cymwysterau.

Yn y dyfodol, mae'n rhaid cofio bod y Gymraeg a'r Saesneg i'w trin yn gyfartal. Rhaid i'r egwyddor hon fod wrth wraidd y gwaith cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Gadewch i mi'ch sicrhau y bydd ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i anghenion penodol addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg wrth i ni fynd ati i ddatblygu trefniadau ar gyfer strwythur y cwricwlwm newydd, gan gynnwys y trefniadau asesu.

Gan droi, felly, at eich cwestiynau penodol. Cyfrifoldeb Cymwysterau Cymru fel y rheoleiddiwr annibynnol yw diffinio ystyr 'digonedd' mewn perthynas â faint o adnoddau sydd ar gael i ategu'r gwaith o addysgu cymhwyster.

Cychwynnwyd y gwaith o nodi'r adnoddau dysgu ac addysgu sydd eu hangen i ategu'r gwaith o addysgu'r cymwysterau ar eu newydd wedd yn 2015. Yr adeg honno, daeth grŵp o'r prif randdeiliaid ynghyd ar gais Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys CBAC, y Consortia Addysg Rhanbarthol, a Cymwysterau Cymru o 2015 ymlaen. Yn ychwanegol at

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyn, sefydlwyd paneli o ymarferwyr i ystyried y gofynion penodol o ran addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth lle’r oedd ei angen fwyaf.

Mae Llywodraeth Cymru, o fewn y gyllideb flynyddol ar gyfer comisiynu adnoddau addysgol, yn dyrannu cyllid i CBAC i gynhyrchu fersiynau Cymraeg o werslyfrau sy'n cael eu cynhyrchu gan gyhoeddwyr masnachol yn Lloegr, er mwyn cefnogi manylebau CBAC. Dyrannwyd hyd at £1.3 miliwn dros y blynyddoedd ariannol 2016-18. Mae CBAC hefyd yn rhedeg cynllun gwarantu prynu a gwerthu i’r cyhoeddwr fel rhan o’r trefniadau grant. Mae hyn yn sicrhau bod ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog yn cael copïau o’r adnoddau a gyhoeddir yn rhad ac am ddim.

Mewn achosion lle nad yw gwerslyfrau pynciau yn cael eu creu yn y naill iaith na’r llall, mae CBAC wedi cynhyrchu ystod o adnoddau digidol dwyieithog sydd eto’n rhad ac am ddim i ysgolion. Maent ar gael ar dudalennau adnoddau gwefan CBAC. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu adnoddau cyfrwng Cymraeg ychwanegol, yn sgil cynnal cyfres o baneli i nodi anghenion adnoddau rhwng haf 2015 a’r hydref 2017. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dros £3.4m i’r consortia rhanbarthol yn 2016-17 a £2m yn 2017-18, er mwyn cefnogi ysgolion wrth iddynt baratoi i addysgu’r cymwysterau newydd. Roedd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau Cymraeg a Saesneg.

O ran eich awgrym i gyfuno cynhyrchu gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg a gwerslyfrau eraill, mae’r busnes o gyhoeddi gwerslyfrau yn cael ei ysgogi gan y farchnad. Y cyhoeddwyr masnachol sy’n penderfynu pa rai i gomisiynu. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru bŵer dros y penderfyniadau masnachol sy’n cael eu gwneud gan y cwmnïau hyn, mae fy swyddogion yn parhau i drafod â thai cyhoeddi i ystyried yr opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education